

Patrwm cyflwyno: O fis Hydref I fis Mehefin

Caiff y modiwl hwn ei gyflwyno bob yn ail flwyddyn eilrif

Gwybodaeth am y rhaglen

Mae'r rhan fwyaf o'r modiwlau MSc yn seiliedig ar ddarllen gwrslyfr gosod unigol a nodiadau ategol dan arweiniad. Bydd angen i fyfyrwyr gwblhau chwe modiwl gwerth 180 o bwyntiau i ennill y radd.

Disgrifiad o'r modiwl

Mae Damcaniaeth Galois, a ddatblygwyd yn y 19eg ganrif ac sydd wedi'i henwi ar ôl y dyn anlwcus, Évariste Galois, a fu farw yn 20 oed yn dilyn gornest, yn datgelu cydberthynas gadarn rhwng strwythur grwpiau a strwythur meysydd yn Theorem Sylfaenol Damcaniaeth Galois. Mae gan y ddamcaniaeth nifer o ganlyniadau, gan gynnwys dosbarthiad meysydd meidraidd, profi amhosibilrwydd ar gyfer strwythurau pren mesur a chwmpawd penodol, a thystiolaeth o Theorem Sylfaenol Algebra. Fodd bynnag, y canlyniad enwocaf yw'r cysylltiad y mae'n ei wneud rhwng datrys polynomialau a damcaniaeth grŵp, gan arwain at brofi nad oes "fformiwlâ o'r bumed radd" fel fformiwlâ gwadratig.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd anrhydedd dda mewn mathemateg neu bwnc sy'n uniongyrchol berthnasol i gynnwys y modiwl
- fel arfer *naill ai*
 - (i) PhD mewn mathemateg neu bwnc perthnasol (neu'n astudio ar gyfer PhD); *neu*
 - (ii) radd meist'r dda mewn mathemateg; *neu*
 - (iii) wedi addysgu mathemateg bur yn effeithiol ar lefel blwyddyn olaf baglor neu ar lefel meist'r am o leiaf dair blynedd
- tystiolaeth o weithio mewn maes sy'n uniongyrchol berthnasol i gynnwys y modiwl
- y gallu i ddarparu tystiolaeth o ddealltwriaeth lwyr o gyfran fawr o'r deunydd a gaiff ei astudio yn y modiwl (er enghraifft, drwy gwblhau tasg ysgrifenedig cyn y cyfweliad yn llwyddiannus) a dangos y gallu a'r parodrwydd i ddatblygu dealltwriaeth o weddill y deunydd yn gyflym
- cyfarpar a sgiliau TG priodol
- y parodrwydd i ddefnyddio cyfleusterau e-ddysgu, megis:
 - gwefan y modiwl, a gwefannau eraill y Brifysgol, i lawrlwytho deunyddiau hanfodol a chael gafael ar wybodaeth arall
 - systemau'r Brifysgol er mwyn monitro cynnydd myfyrwyr
 - e-bost a fforymau'r Brifysgol er mwyn cyfathrebu â myfyrwyr, tiwtoriaid a staff eraill mewn modd anghydamserol
 - meddalwedd tiwtorialau ar-lein y Brifysgol (rhoddir hyfforddiant) i gyfathrebu â myfyrwyr lle y bo'n gymwys

- marcio aseiniadau myfyrwyr a gyflwynir yn electronig (ar ffurf PDF) ar y sgrin (eTMA)

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- PhD mewn maes perthnasol
- profiad o addysgu ac arholi, yn enwedig ym maes addysg o bell ar lefel ôl-raddedig
- profiad o addysgu algebra haniaethol a/neu Ddamcaniaeth Galois ar lefel ôl-raddedig neu drydedd flwyddyn.

Gwybodaeth ychwanegol

Gan fod myfyrwyr ar y modiwl hwn yn gallu dewis cyflwyno eu haseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn electronig drwy system TMA/EMA ar-lein y Brifysgol, bydd gofyn i chi farcio a rhoi adborth ar y TMAs a gyflwynir yn electronig a dychwelyd y gwaith a farciwyd fel ffeil electronig, ar y ffurf ragnodedig, i'r gwasanaeth TMA/EMA ar-lein. Efallai y bydd angen i chi hefyd farcio aseiniadau papur a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA). Os cewch eich gwahodd am gyfweiliad, bydd y rhan olaf yn cynnwys ymarfer marcio electronig, rhoddir rhywfaint o arweiniad ar hyn. Bydd rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael os cewch eich penodi i'r rôl.

Mae'n bosibl y bydd union natur y cyfleusterau e-ddysgu a systemau'r Brifysgol i fonitro cynnydd myfyrwyr a delio ag aseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn datblygu yn y dyfodol, a bydd angen i chi fod yn barod i addasu yn unol â hynny. Noder y bydd disgwyl i diwtoriaid ddefnyddio eu hoffer eu hunain ar gyfer pob agwedd ar e-ddysgu yn unol â pholisi'r Brifysgol.

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	1a
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	2.5